YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1899. [RHIF 140.

DR. MARTINEAU.

GYDA DARLUN (GWEL TUDAL. 174.)

YCHYDIG ddiwrnodau cyn ei farwolaeth, addawodd y diweddar Barch. R. Spears ein helpu i gyhoeddi nifer o ddarluniau prif enwogion ein Henwad tuallan i Gymru. Er galar i holl garwyr ein hachos, bu y boneddwr hwnw farw, ond mae y weddw yn garedig iawn yn cario allan addewidion ei phriod. Yn briodol iawn gellir dechreu y gyfres gyda'r hybarch Ddr. Martineau, gan mai efe, yn ddiamheu, yw yr enwocaf o'n henwogion sydd yn fyw yn bresenol. Hana o deulu Huguenotaidd, a ganwyd ef ar yr 21ain o Ebrill, 1805. Am ei allu anarferol fel ysgrifenydd ar athroniaeth, nid oes angen dyweyd dim. Ychydig amser yn ol, ar ddydd pen blwydd Dr. Martineau, ysgrifenai y *Daily Chronicle*, un o newyddiaduron mwyaf nodedig Llundain, erthygl ffafriol iawn am dano, a dywedai mai Martineau yw y duwinydd athronyddol mwyaf yn y byd. Darllenir ei lyfrau yn mhrif Golegau y deyrnas, hyd yn nod yn Ngholegau Duwinyddol Cymru. Hwyrddydd llawn o dangnefedd fyddo hwyrddydd bywyd y gwron ardderchog.

"DYN YW DYN ER HYN OLL."

(BURNS.)

AYDYW aur a mwynderau—yn rhoi
Natur uwch i fodau?
A yw gwel'd a charu gwŷr—tlawd, moesol,
Yn anmhriodol mewn ymherawdwyr?

Prisier dyn fel dyn, ai doeth
Ei enaid, ynte annoeth;
Nid ei aur all ei wneyd o,
Na theyrnas roi gwerth arno.—ELFYN.



CYFEILLACHAU'R NEFOEDD.

TUA blwyddyn, fwy neu lai yn ol, bu tipyn o holi arnaf yn nghylch llawer i bwnc dirgel sydd wedi fy meddianu erbyn heddyw gyda gafael ddyfnach nag erioed o'r blaen. Ni fûm braidd er cof genyf heb deimlo dyddordeb yn y pynciau hyny, ond y mae'r dyddordeb erbyn heddyw wedi myned yn ddyddordeb mwy byw. Gwnawn ymresymu o'r blaen, fel y gwnelai llawer ereill, a theimlaf eto fod nerth yn yr ymresymiad, mai yma yn benaf y mae prif fanllawr gweithrediadau daearolion ; ond a chaniatau hyny, pan y gwelwn y blynyddoedd, y naill ar ol y llall yn llithro i ffwrdd, a char ar ol car yn dianc i'r dirgelwch mawr hwnt i niwl y glyn, nid oes modd ysgoi yr argyhoeddiad sobr, nad yw ein gafael ar y presenol fel daearolion ond byr ac ansicr, a daw'r ymholiad anwrthwynebol i'r ffrynt:—"Beth wed'yn?"

Yna awn allan, fel Moses gynt, gyda rhyw awydd cryf a rhag-deimlad dwys am gael golwg ar y wlad hwnt i'r Iorddonen. Esgynwn rhyw Abarim cyfagos, rhyw Nebo yn nhir Moab, ar gyfer Jericho ; a cheisiwn gipdrem ar gyrau Canaan ein gobaith. Gwyddom nad oes modd dyfod o hyd i unrhyw wybodaeth sicr am dani hi, na'i hanes, na'i phobl, na'i hiaith, na'i defion. Eto, pan deimlwn fod adeg codi'r angor wedi dyfod, daw yn naturiol i ymholi, a dyfalu, a dychymygu ; a boddlonwn ein hunain ar lawer pwynt. Bydd hyny am mai Canaan ein ffydd a'n gobaith yw, ac am fod ffydd a gobaith o blaniad Duw yn enaid dyn.

Yn rhifyn Gorphenhaf, ymdriniais yn fyr â'r ymholiad, "A adwaenwn ni ein gilydd yn y Nefoedd?" a cheisiais ei ateb yn gadarnhaol. Yr wyf yn awr ar fedr cymeryd i fyny yr ymholiad arall hwn, "A adnewyddir Cyfeillachau'r Ddaear yn y Nefoedd?" ac mor falch fyddwn pe gallwn fy hunan gael, a helpu arall i gael, gweledigaeth eglur ar y pwnc.

Yr ydym wedi clywed llawer o son am ddeddfau naturiol yn y byd ysbrydol, a pheth am ddeddfau ysbrydol yn y byd naturiol, a bod yna gydgordiad rhyngddynt. Darllenwn fod deddfau anian bob amser yn unffurf. Cawn mai natur tân yw llosgi yn mhob man, a thuedd dwfr yw boddi. Yn wastad ac yn mhob man gwneir awyr i fyny o'r un cyfartaledd o *oxygen* a *nitrogen*, a gwneir dwfr i fyny o'r un cyfartaledd o *oxygen* a *hydrogen*. Ieuant yn wastad ar yr un telerau, ac nid oes fyth ieuo anghymharus. Y mae deddf atdyniad a gwrthdyniad yr un peth yn mhob man, yr un peth yma ar y ddaear ac yn mhob byd arall—yn Sadwrn neu Sirius, neu'r seren bellaf sydd yn llewyrchu ar ysbienddrych y serenydd ; ond y mae yna elfen o ansicrwydd yn holl gysylltiadau dynoliaeth—math o hap ac antur a dygwydd yn nghyfeillachau'r ddaear. Y mae'r creadur megys dan reddf, ac yn rhwym wrtho ;

ond dyn dan ddeddf uwch, ac at ei ryddid. Yn ngeiriau y bardd:—

"Pan rowd ar natur dynged dŷn,
I ddyn rhowd 'wyllys rydd."

Gogoniant dyn yn ddiamheu yw ei ryddid ewyllys; ac fel mae'n rhyfedd meddwl, dyna ffynonell ei gywilydd hefyd. Y mae'r creadur sydd dan reddf yn byw i fyny i ofynion ei natur. Nid oes byth amheuaeth yn ein meddwl nad yw'r ceffyl yn byw yn deilwng o'r ceffyl, y fuwch o'r fuwch, y ddafad o'r ddafad; ond am y dyn, y mae o hyd yn syrthio yn fyr o ofynion ei natur, ac y mae ei gywilydd oblegid hyny yn profi yn ysgogydd i rywbeth uwch, yr *ideal* sydd heb ei gyrhaedd. Dyna yw dyn, nid oherwydd rhyw godwm tybiedig yn Adda, ond oherwydd yr elfen codi wedi ei blanu yn ei natur gan Ragluniaeth ddoeth. Fe'i genir ef yn blentyn, yn anwybodus, yn anystyriol, ac yn annoeth, ac fel canlyniad, fe syrthia i'r clais ar yr ochr dde neu'r ochr aswy i'r ffordd, a hyny yn barhaus. Wrth gripian, ac ar ol llawer codwm, mae yn dysgu cerdded.

Y mae y rhyddid i ddewis yn ddoeth yn golygu y rhyddid i ddewis yn ffol yn ogystal, a hyn sydd yn cyfrif am y cyfeillachau annoeth a ffurfir, a'r ieuo anghymharus a welir ar bob tu. Annymunol iawn fyddai'r ystyriaeth fod camsyniadau'r byd hwn yn cael eu trosglwyddo i'r bywyd hwnt; ni fyddai yn amgen na chreulonder o'r mwyaf lawer pryd i wneuthur undebau'r ddaear yn orfodol yn y nefoedd. Byddai ymrwymiad gorfodol yn anghyson â'n syniad ni am nefoedd. Geiriau'r gwasanaeth priodasol ydynt, "Hyd pan y'n gwahano angeu; tra fyddoch byw eich deuoedd; a hyny yn wastad, er gwell, er gwaeth." Ymddengys y cyfryw drefn yn oreu yn ngwyneb y ffaith fod lluoedd cymaint yn ieuo yn anghymharus. Ni fydd hyny mewn modd yn y byd yn rhwystr i barhau'r gyfeillach, a byw dan yr un iau, os bydd dewis i hyny o'r ddau tu. Os bydd dewis, yn ddiamheu bydd rhyddid; ond ni ellir cael cyfeillach iachus a pharhaol, ebe Cicero, oddieithr rhwng y rhinweddol a'r da.

Yn ol tystiolaeth yr Ysgrythyr, ni fydd dim priodi na rhoddi i briodas yn y nefoedd; ni fydd eisieu, gan y byddant oll fel yr angylion. Dyben priodi ar y ddaear yw parhau yr hiliogaeth, ond dysgwyliwn na fydd angen hyny yn y nefoedd. Eto y mae ystyr bwysig i'r ddiareb Seisonig, "Marriages are made in heaven"—fod priodasau yn cael eu gwneuthur yn y nefoedd. Bydd deddfau tynu a gwrthdynu, caru a chashau, yn debyg yn y nefoedd i'r hyn ydynt ar y ddaear. Ni fydd dim yn rhwystr, dybiwn, i Damon a Pythias, Dafydd a Jonathan, i adnewyddu a pharhau eu cyfeillach felus.

Trwyther cyfeillachau'r bywyd hwn âg ysbryd deddfau'r byd a ddaw, a gallwn ddysgwyl na fydd tori arnynt. Yr ieuo a wneir

yn y nefoedd, nis dadwneir ef byth. Cariad a chrefydd, ac nid arian ac aur, yw rhwymyn yr undeb sydd i barhau. Meddai'r Salmydd, "Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd? A phwy a saif yn Ei le sanctaidd Ef? Y glan ei ddwylaw, a'r pur ei galon; yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo. Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth" (Salm xxiv.) Am driugain mlynedd bu yr hen Ddarbi a'i Sian fwyn yn cydfyw, yn cydgario beichiau bywyd, ac yn cydaddfedu i ogoniant. Nid yw'n bosibl na adwaenant eu gilydd eto, ac nis gall fod amheuaeth na fyddant yn falch i adnewyddu'r gyfeillach felus a dorwyd ar y ddaear dan amgylchiadau mwy ffafriol yn y nefoedd. Credwn y gwnaiff y rhwymyn a ffurfir gan gariad a chrefydd barhau yn ddiddòr, a phasio yn ddianaf drwy farwolaeth i'r bywyd mawr yr ochr draw.

Gorphenhaf, 1899. R. J. J.

AR FOREU SUL.

AR foreu Sul, pan oedd y clychau'n seinio,
A cheraint, rhai yn canu, rhai'n gweddïo;
Pwy 'ch galwodd chwi pan oeddych fel yn cysgu,
O'r pellder draw, i wylio a dyogelu?
Pwy roddodd i chwi 'r fath gyffyrddiad graslon?
Pwy ddygodd i chwi 'r fath dangnefedd calon?

Ar foreu Sul, pan oedd y clychau'n seinio,
A ddarfu i chwi 'r hen ganu gynt adgofio?
A wnaeth 'r addoliad ddim i loewi 'ch enaid,
Yn yr hoff fan lle gynt bu eich anwyliaid?
A gawsoch chwi y ffordd yn rhwydd at Iesu,
Yn rhwydd i'w garu, ac i'w wasanaethu?

Ar foreu Sul, pan oedd y clychau'n seinio,
Taw arnom ddaeth, a'n cân a ga'dd ei rhwystro;
Ond draw o Dŷ ein Tad daeth melus seiniau
Cyfeillion cu 'n gwahodd i'r hedd-drigfanau;
Nid cnul angladdol oedd i beri tristyd,
Ond gobaith, cnul ffarwel, ychydig enyd.

Adsain. T. C. U.

GWARTH LLAFUR.

Y MAE llawer wedi ei ysgrifenu ar urddas llafur. Fel y cura yn ei ddadwrdd wrth euraidd ddrws y boreu, ac y geifl yn nghorn yr aradr i dori y dywarchen las; fel yr haua yr had, ac y med y cynhauaf, ac y darpara luniaeth i ddeg can' miliwn y teulu dynol: ond ychydig glywir am warth llafur.

Y mae y rheswm am hyn yn syml. Y mae mwyafrif ysgrifenwyr yr oesau wedi hanu o'r dosbarth hamddenol, ac yn dysgwyl eu clod a'u bri oddiwrth rai sydd a'u seibiant yn sylfaenedig ar lafur ereill, ac y mae yn rhaid iddynt hwy wrth y weniaith yma i gadw'r gweithiwr yn foddlawn ar ei ran.

Fel y dywed Tolstoy, gwnant bobpeth ond dyfod i lawr oddiar eu hysgwyddau. Ond er holl ymdrechion y dosbarth yma i ddilladu llafur âg ychydig urddas, gwisg lled fratiog ydyw, a dengys y gwarth drwy y rhwygiadau beunydd.

Pa un ai ei gwelir yn curo wrth euraidd ddrws y boreu, neu dderwen-ddrws yr orsaf i fod yn brydlon i "drên y gweithiwr," lle eu gwesgir bymtheg i le pump yn y cerbydau aflan gyfrifir yn deilwng i urddas llafur? Pa un ai yn dal corn yr aradr ar lasiad dydd, neu yn medi y cynhauaf dan wres yr haul, a'r wàr yn gam, y cymalau yn anystwyth, a'r meddwl yn dywyll dan ludded llafur diseibiant, y mae olion gwarth yn rhy amlwg arno yn wastad. Ac y mae greddf dynoliaeth wedi bod mewn gwrthryfel â'r ffaith yma erioed. Edrychai hen ysgrifenwyr Groeg—mewn oes nad oedd raid iddynt wrth bleidlais y gweithwyr na ffafr y llafurwr—ar lafur fel cyfran caethwas. Rhanai y Rhufeiniwr gymdeithas i ddau ddosbarth mawr o wreng a bonedd; y gwaith a'r gwarth i'r gwreng, a'r urddas a'r seibiant i'r bonedd; ac y mae ei drefn wedi dal ei thir hyd heddyw.

Y mae y meddwl dynol wedi cofrestru syniadau tebyg yn ei chwedleuaeth foreuaf. Nis gallwn heddyw gredu yn nghywirdeb hanes y cread a dechreuad dyn a geir yn Genesis; ond dengys y chwedl ddyddorol yma fel yr edrychai dynoliaeth yn yr oesoedd boreu hyn ar lafur a lludded fel barn Duw ar drosedd-wyr Ei gyfraith. Er fod yr Uniawngred, gyda'r anghysondeb difyrus hyny sydd yn nodweddu eu cred, wedi gwneyd ymgais i gyfnewid—mewn gwyddor, beth bynag—melldith Duw yn rinwedd dyn drwy fawrygu diwydrwydd a llafur, y mae eu harferiad yn croes-ddyweyd eu gwyddor, oblegid, fel dynoliaeth yn gyffredin, rhoddant fwy o barch i'r bonedd diwaith nag i'r gweithiwr llafurus; a chysylltir rhyw gymaint o ddiffyg moesol yn wastad, fel nôd y cyfraith-dorwr, â'r dosbarth llafur pan ei cymharir â rhanau ereill o gymdeithas.

Gwelir yr un tueddiad mewn ffurf arall yn y modd y mae y byd Cristionogol wedi trawsnewid cymeriad Iesu o Nazareth. Dechreuodd Sylfaenydd Cristionogaeth Ei yrfa ofidus fel un o

wir feibion llafur—er, y mae yn sicr, y gwnai mwyafrif o'i ganlynwyr Ei gondemnio heddyw o esgeuluso Ei waith mewn ymdrech ddisynwyr i argyhoeddi Ei gydwladwyr—ond cryfed ydyw cred dynoliaeth yn ngwaith llafur fel y gwelwn yn ystod Ei fywyd foneddwyr crefyddol parchus Ei ardal yn gofyn yn wawdus pan eu condemnid mor ddiarbed, "Onid Hwn ydyw mab Joseph y *saer?* Yr un modd, teimlai y byd Cristionogol fod iselder amgylchiadau ei Sylfaenydd yn anghydweddol â'r rhwysg allanol ddylai nodweddu crefydd lwyddianus; a chyn pen hir, trawsnewidiwyd y gweithiwr tlawd yn Ben Tywysog yr Eglwys Babaidd; ac yn y byd Protestanaidd, aeth Iesu y Saer yn Arglwydd Iesu, ail Berson y Drindod.

Y mae rhywbeth yn drist yn yr ymdrechion yma o eiddo dynoliaeth i ysgwyd ymaith oddiwrth ei hoff gymeriadau y syniad o warth gysyllta â chyflwr o lafur, drwy eu trawsnewid i gymeriadau a gysylltir â bywyd o seibiant a segurdod. Ond y mae y reddf yma o eiddo dynoliaeth yn un gywir; oblegid, os nad ydym i gredu, fel "Northern Farmer" Tennyson, fod y tlodion i gyd yn ddrwg, beth ond gwarth llafur gyfrifa am gyflwr truenus miloedd preswylwyr ein trefydd mawr? Beth sydd wedi trawsnewid mewn ychydig genedlaethau drigolion cymharol ddengar y wlad i anifeiliaid budron y dref? Beth sydd yn peri iddynt ddewis atdyniadau hudolus y dafarn, ac anghof darfodedig y cwpan, i'w cartrefi eu hunain? Beth ydyw achos y llesgedd ledaena'r wlad, a gwynir gymaint arno gan garwyr cynydd a rhyddfrydiaeth feddyliol? Beth sydd i gyfrif am y geidwadaeth grefyddol nodwedda Cymru fel gwlad, sydd yn cau ei phreswylwyr oddiwrth wybodaeth ddiweddar, ac yn gwneyd dysgeidiaeth gwyddoniaeth mewn daeareg a dadblygiad yn syniadau mor ddyeithr iddynt a phe baent yn breswylwyr Affric? Un achos mawr ydyw diwydrwydd disynwyr y wlad, y llafur diaros sydd yn amddifadu pawb o unrhyw seibiant, ac yn eu gwneyd yn rhy luddedig i feddwl am ddim ond eu cefn a'u cylla.

Pa ddiwylliant sydd yn bosibl i weithwyr y dref ddechreuant eu gwaith ar doriad y dydd, ac a ddychwelant i'w cartrefi liw nos, a'u meddwl a'u gewynau yn dyheu am wely—yn ddyeithriaid hyn yn nod i'w plant eu hunain? Pa gynydd meddyliol ellir ddysgwyl oddiwrth weithwyr Cymru sydd yn llafurio o godiad haul hyd yn mhell wedi ei fachludiad? O dan y fath amgylchiadau, nid ydyw yr addoldy ar y Sul ond lle cyfleus i gysgu. Pa ryfedd fod hen ragfarnau yn dal eu tir? Pa ryfedd yr edrychir gyda sarhad ar gyflwr o lafur, pan y mae yn anwahanol gysylltiedig âg anwybodaeth ddigynydd, ac y gwelir rhieni Cymru yn ceisio gwneyd eu plant yn bobpeth ond yn weithwyr? Dim ond creaduriaid â'u holl synwyrau wedi eu pylu gan ludded oddefai fywyd ystrydoedd hagr rhanau gweithiol Llundain. Creaduriaid yn crefu am adloniant, ond â'u meddyliau yn rhy luddedig i dderbyn unrhyw adloniant deallol, sydd yn llanw tafarnau a *music halls* ein trefydd.

Y mae y tueddiadau yma yn etifeddiaethol. Y mae y lludded fu yn diduedd y tad i wneyd unrhyw ymdrech i ddiwyllio ei feddwl yn myned yn reddf yn y plentyn.

Prif angenrhaid yr oes ydyw rhagor o seibiant a llai o lafur; mwy o amser i ddiwyllio y deall a dadblygu y meddwl; mwy o hamdden i ystyried, a llai o weithio, ac yna ni a gawn weled gwir fawredd dyn yn dyfod allan. WINTON.

ER COF AM J. J.,

A roddwyd i orphwys yn mynwent Pisgah, Ceredigion, Mehefin 19eg, 1899, yn 27 oed.

I FYNWENT ar y bryn
Eheda'r awen,
A phlyg ei hedyn gwyn
Ar goch dywarchen;
Ei chân yn wan a phrudd,
A llesg gan ddagrau sydd,
Am wedd roed yma'n gudd
Fu gynt mor llawen.

Mewn mynwent ar y bryn
Ef huna'n dawel,
Heb ddim ond cwmwl gwyn
Yn nghôl yr awel
I wylio dôr ei dŷ
Olaf, heb swn na su—
Ac aml oddifry
Syrth deigryn dirgel.

Hen fynwent ar y bryn,
Torf o adgofion
Yn mysg dy feddau fyn
Ymrithio'n gyson—
Am ddyddiau pan fu dau
Yn nghanol blodau'n gwau
Gorwych ddyfodol gau,
Am oriau meithion.

Ond mynwent ar y bryn
A ddeil yr awrhon
Yr addewidion gwyn,
A'r teg obeithion;
Anmhrydlon derfyn roed
I'r llwybrau barotoed
Genym mewn ieuanc oed,
Mewn haf a meillion.

Mewn mynwent ar y bryn,
Fy nghar a huna,
Ac yno llygad gwyn
Y dydd a wena
Yn siriol ger y bedd—
Darllenaf yn ei wedd,
"Tawel a pherffaith hedd
Deyrnasa yma."

Caledwaith byd i ti
Erioed ni threfnwyd;
Gwers fu dy oes i ni
Yn ol adawyd.
Yn rhyfedd ffordd ei Dduw,
Gwyraist i'th fedd yn wyw,
I'n dysgu ni i fyw
Rhagorach bywyd.

Gorphwys yn medd y bryn
Yn dawel, dawel;
Hardded y meillion gwyn
Dy breswyl isel:
A phan wnaf yma'm sedd,
Sued awelon hedd
I'm clust uwchben dy fedd
Fel anadl angel.

S.

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan HIRFAEN RHYS.

II.

Gwawr y Dydd.

NID oes genym hanes fod Ap Cynon wedi rhagori i'r graddau lleiaf ar ei gyfoedion pan yn yr ysgol yn y pentref; llai fyth y gellir gwneyd allan o'i bapyrau fod neb yn credu y blodeuai ynddo fwy o athrylith na rhyw blentyn arall pan yn cerdded yn ei lodrau *corduroy* drwy'r llaid a'r llaca at yr hen ysgolfeistr anwyl hwnw a addysgai fechgyn a merched y gymydogaeth ugain mlynedd yn ol. Yr unig beth a gawn allan o'r ysgrifau (wedi chwilio manwl) ydyw, ei fod yn foreu iawn wedi arddangos syched annhoradwy am ddarllen llyfrau o bob math, ac y byddai yn aml yn gorfod dyoddef pwys ffon y meistr am esgeuluso ei wersi; a geiriau celyd ei fam (y rhai oeddynt yn drymach fyth), am wneyd hafog ar ei hystôr o ganwyllau gwêr yn ystod nosweithiau'r gauaf.

Rhoddwn yma ei adfyfyrdod ar ddyddiau ei ysgoleiciaeth o dan hen ysgolfeistr y pentref, a chawn ganddo, gyda llaw, rai sylwadau dyeithr ar safle'r iaith Gymraeg yn y dyddiau hyny, a'n dyledswydd tuag ati yn y blynyddau hyn :—

"Addysg! llaw-forwyn masnach, a gweinyddes crefydd, pa ryfedd fod fy ngwlad wedi bod cyhyd yn nghrafangau tlodi ac ofergoeliaeth! Braidd y gellir canmol crefydd benboeth a thywyll, os na thymherir hi âg addysg gyffredinol. Crefydd heb addysg sydd fel tân-beiriant heb reilffyrdd, neu agerlong heb lyw—yni anghyfeiriedig ydyw. Dywed rhai, ac nid wyf yn mhell o fod yn cytuno â hwy, mai ofergoeliaeth hollol oedd llawer o grefydd haner gyntaf y ganrif bresenol—coelio pobpeth, a'i dderbyn fel ffaith, heb amheu dim; a hyny yn gyru yr ysbryd aflywodraethus a thanllyd Cymreig i'r fath eithafion na welwyd eu bath ond yn mysg y Pabyddion mwyaf tywyll. Yn mha le y cafodd Joseph Smith fwy o ddilynwyr nag yn Nghymru ben-boeth ddiaddysg? A phe bai Mahomed wedi gohirio ei ddyfodiad am ryw dri chant ar ddeg o flwyddi, cawsai dir bras i hadau ei grefydd dywell a nwydwyllt yntau.

"Tŷner yr eithin, y drain, a'r mieri o'r tir, cloddier ac achleser y wlad â pheirianau addysg; rhodder cnawd am esgyrn y graig ddiffaith, mewn ffurf o wybodaeth, yna gellir dysgwyl cnwd toreithiog o wenith di-efrau crefydd Crist i wynu gwyneb ein byd.

"Er cynddrwg cynlluniau ysgolfeistri yr hen Ysgolion Brutanaidd hyd ein gwlad, nid ofer i gyd fu eu gwaith; fel i lawer ereill, agorasant i minau gyfrin-ddorau gwybodaeth, athroniaeth, a chân. Troisant fy nghwmwd cul fy hun yn wastadedd byd eang i mi; galluogasant fi i chwareu â'r ser a'r planedau fel cynifer o *farbles* ar fwrdd crwn Glan Cynon, ger tân mawn hen aelwyd glyd fy nhad a mam. Yn yr Ysgol Frutanaidd y dysgais ymgomio gyntaf yn iaith gelfydd y Sais, ac ymgynefino âg ambell i gawr-feddwl fel Newton a Shakespeare. Yma y deallais yn gyntaf fy mawredd fy hun, ac yma hefyd y cefais ambell i drem ar fy mychander. Gwir fod gormod o addoli baw o bell, yn hytrach na'r perl o agos, yn y dyddiau hyny, fel ag y gwneir yn awr, ac fel y bydd tra pery y natur ddynol yr un. Er i mi, drwy ddirfawr lwc a bendith, astudio'r Saesoneg, a rhyw ychydig *iawn* o'r ieithoedd byw a marw ereill, fel ag i dderbyn rhyw fudd o'r wybodaeth hono, synwn yn aml wedi hyny paham y gosodir cymaint anfri ar ein hen iaith ardderchog ein hunain. Gwir ei bod, i'r glust ddyeithr, yn swnio yn grug a chras ddigon; ond termau hollol berthynasol ydyw y rhei'ny. Pa beth ydyw achos yr anfri hwnw (canys y mae i'w gael hyd heddyw!)? Fy nghyfeillion (pe bai rhywun genym i'm clywed hefyd), nid ar y Gymraeg, ond ar y Cymry, mae'r bai. Oni pharchwn ni ein hiaith, ofer i ni ddysgwyl parch iddi oddiar law neb arall. Baw o bell (neu, os myner, *perl* o bell, y mae yr un mor wrthun), yn well na pherl o agos! Dyna'r 'stori!

"Dacw'r hogyn gwladaidd yna, wedi treulio y pum' gauaf diweddaf (canys bugeilio y mae yr haf) i ddysgu dyweyd 'Yes' a 'No,' ac 'How are you to-day' (a chreda fod hyny yn Saesoneg penigamp), ac ysgrifenu tua deg brawddeg ddealledig i Sais; tra y dysgir ef i gysylltu pob brawddeg o'i iaith ei hun â phen pastwn yr ysgolfeistr! Yn ystod fy mywyd byr, yr wyf wedi dysgu Sais i ddarllen a sillebu Cymraeg mewn cynifer o oriau ag a gymerai o auafau i hogyn Cymreig i ddysgu sillebu a darllen Saesoneg yn gywir. Eto, gwelwn ef yn ysgrifenu 'llythyr' yn 'llithir,' pan oddicartref yn ceisio anfon gair o'i hanes, ys dywed yntau, at ei 'ryani.' Er fod enwau Bunyan a Shakespeare (ond nid rhagor nag enwau, cofier) yn berffaith adnabyddus iddo, wele ef yn fud pan ofynir iddo roddi i ni gymaint ag enw bardd neu lenor Cymreig, a fagwyd, o bosibl, o fewn *un* filldir iddo. Gwn o'r goreu nad gwiw ceisio cymharu Ceiriog â Wordsworth neu Burns, ond pa nifer o blant Cymru ag sydd wedi gorfod dysgu Lucy Gray ar gof, wedi llawer cernod (ac heb ei ddeall wedi'r cyfan), a glywsant erioed am yr 'Eneth Ddall,' a llai fyth am yr awdwr pur a syml ei awen?

"Oes rhywun fedr ddadleu nad yw blodeuyn y dydd a dyfa dan ein traed, ac y gellir ei bigo i fyny a'i edmygu a'i gusanu bob dydd, yn well na lili'r dyffrynoedd, er ei holl ogoniant a'i mawredd, na welsom erioed, na thyfa rhwng ein bryniau geirwon ni, ac yn ddigon tebyg na welwn fyth! Y mae y penill mwyaf

anghelfydd, a ddeallir yn drwyadl, sydd yn dwyn i'r meddwl ddarlun o'r hyn a welwyd lawer gwaith, a'r hyn a genir genym bob amser; y mae hwn, meddaf, yn anfeidrol well na'r awdl fwyaf coeth ac aruchel mewn iaith nas deallwn, ac yn darlunio pethau nas gwelsom erioed eu tebyg, ac am hyny nas amgyffredwn byth. I'r mynyddwr, rhodder bwthyn, a chraig, ac ystorm; i'r dyffrynwr balas, a thiroedd bras, ac awelon balmaidd! I'r Cymro, rhodder yr iaith arw Gymraeg, ac awelon yr oesau gynt yn ysbrydoli ei geiriau geirwon; i'r Sais, rhodder iaith lefn masnach a bonedd, a bydolrwydd, a thwyll, a materolrwydd yn gwenwyno aml un o'i geiriau difiwsig.

"Ar hyd gwyneb garw Cymru, gresyn heddyw yw sylwi ar ei meibion cryfion â'u talentau yn gorwedd yn gudd, fel cynifer o berlau, mewn môr o anwybodaeth a difaterwch; llawer o'r hwn a ellir briodoli i'r ffaith nas cawsant erioed y cyfle i ddrachtio o afonydd dysg, drwy roddi iddynt feistrolaeth briodol ar *iaith*, yr hon, gydag ychydig ymarfer, a'u galluogent i weled a phwrcasu trysorau oeddynt yn gorwedd o'u hamgylch ar bob llaw. Nid ydym am gadw'r iaith Gymraeg yn fyw un foment yn hŵy nag a fydd o ddefnydd i'r *Cymro* – yr ydym *am* iddo ef fyw. Iaith, fel pob peth arall, a ddaeth i fodolaeth am ei bod o ddefnydd; pan dderfydd ei defnyddioldeb, teflir hi ymaith, fel y teifl y neidr ei gwisg. Pan ballo pleser ac adeiladaeth Dafydd ap Gwilym a Goronwy, ac Ellis Wyn a Morgan Llwyd; pan y medr y Cymro ddatgan ei feddwl mewn iaith estronol yn gystal neu yn well nag yn ei iaith ei hun; pan y caiff eiriau estronol yn hafal i'w 'hiraeth' a'i 'dangnefedd;' yna, yn enw pob rheswm a theimlad, tafler y Gymraeg dros y bwrdd i lif-ddyfroedd ebargofiant tragywyddol!"

Gwir ein bod wedi clytio y dyfyniad uchod allan o ddau neu dri o bapyrau llychlyd a llwydaidd a gawsom yn yr hen gist; eto, hyderwn fod y cysylltiad a wnaethom yn un naturiol, ac yn hollol i foddlonrwydd Ap Cynon ei hun, pe medrai ef, druan, dd'od yn ol i'w gweled. Dyna dystiolaeth a barn un yn llefaru, ynte, fel o ddyfnder bedd, ar gyflwr addysg, a chrefydd, a Chymraeg Cymru, chwarter canrif yn ol. Gwelwn yn amlwg, drwy'r wisg dew o wladgarwch a'i gorchuddiai, gryfed, gwedi'r cyfan, oedd ysbryd byd-ddinasyddol yr ymadawedig, er mai yn Nghwm Cynon y treuliodd lawer iawn o'i oes fèr, ond meddylgar a llafurus. Wele bedair llinell o'i eiddo; yn ddiamheu, ef ei hun yw y testyn:—

"Mi sydd wan afonig, lifa drwy y cwm,
Cara'r prinion flodau hyd y llethrau llwm;
Er yn wan, fy wyneb drof er hyn o hyd
O'm hanwylaf gwm at dònau moroedd byd."

(I'w barhau.)

H. R.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

GYNALIODD y Gymdeithas uchod ei chyfarfodydd blynyddol yn Mwlchyfadfa, ar y dyddiau Mercher a Iau, Mehefin 21ain a'r 22ain. Yr oedd ein holl weinidogion Cymreig yn bresenol, oddigerth y Parch. Hathren Davies, yr hwn gafodd ei luddias gan afiechyd; a'r Parch. Thomas Thomas, Y.H., yr hwn oedd yn Llundain, yn bresenol mewn pwyllgor pwysig ag sydd yn dal cysylltiad â'n henwad. Yr oedd cynrychiolwyr bron o bob eglwys Gymreig yn bresenol. Yn mhlith ereill gwelsom y Mri. Davies, Morgan, a Hopkin, o Gellionen; Phillips, o St. Clears; J. Bowen, o Pant-teg; T. Jones, o Cwrtnewydd; Miss Davies, o Caeronen, &c. Yr oedd yn llawen genym groesawu i'n plith dair boneddiges o'r Gorllewin pell, y rhai sydd yn awr ar ymweliad â gwlad eu tadau—y Misses Lloyd-Jones a Miss Lloyd-Wright, o Hillside, Wisconsin, Unol Dalaethau America—disgynyddion o deulu Undodaidd selog ymfudasant o'r gymydogaeth hon i'r Cyfandir Gorllewinol yn y flwyddyn 1845, a'r hwn roddodd i'r Cyfandir hwnw un o bregethwyr mwyaf nodedig a nerthol crefydd rydd yn mherson y Parch. Jenkin Lloyd-Jones, o eglwys yr Holl Eneidiau, Chicago. Drwyddynt hwy, teimlem fod ein hachos bychan ac anmhoblogaidd yn Nghymru yn cael ei ddwyn i gyffyrddiad, ac yn cael ei nerthu drwy gymdeithas a chyfundeb helaethach ac uchelach ei draddodiadau.

Penderfynodd y cyfeillion yn Nghapelyfadfa i gynal cyfarfodydd dydd Iau yn yr awyr agored. Yr oedd y rhagolygom am ddiwrnod teg bron yn sicr; a'r rhagolygon am gynulliad mawr, yn cael ei fesur ar y raddfa Undodaidd, yn fwy sicr fyth. Gosodwyd i fyny lwyfan cyfleus mewn cae ger llaw i'r capel, o dan arolygiaeth fedrus Cadben Davies, Rhydowenfach. Trodd y tywydd allan yn hyfryd, ac yn nghyfarfod y prydnawn nid oedd dim llai na phum' cant yn bresenol. Nodwedd ddymunol arall ydoedd y teimlad brawdol ddangoswyd gan eglwys yr Annibynwyr yn Pisgah. Cymerodd ei gweinidog, y Parch. T. C. Benjamin, nid yn unig ran yn y gwasanaeth prydnawn ddydd Iau, ac anerchodd Bwyllgor yr Ysgol Sul, ond gwahoddwyd dau o'n gweinidogion, y Parchn. John Davies a Lewis Williams, i gynal gwasanaeth yn eu capel nos Fercher.

Boreu ddydd Iau, traddodwyd gan y Llywydd, y Parch. R. C. Jones, ei anerchiad ar "Natur a hawliau Iesu Grist;" a phregeth y Gymdeithas gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, yn y prydnawn. Ei bwnc ydoedd, "Gwaith Proffwyd mewn Crefydd." Heblaw y rhai a enwyd, cymerwyd rhan yn y cyfarfodydd gan y gweinidogion canlynol:—D. Evans, y Wig; J. E. Jones, Cwmbach; J. E. Jenkins, Dowlais; W. J. Phillips, Nottais; D. Rees, Pentre; ac R. J. Jones, M.A., Aberdar.

Am haner awr wedi naw boreu ddydd Iau, cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas, y Llywydd yn y gadair. Darllenwyd a mabwysiadwyd adroddiadau yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd. Pasiwyd fod *grants* yn cael eu rhoddi at yr achosion yn Sychbant, Allt-yplaca, Caeronen, yr achos Cymreig yn Llundain; tuag at gyflogau gweinidogion y Wig a Chwm Rhondda; tuag at Drysorfa Adeiladu Gellionen, a thuag at Gymdeithas y Dynion Ieuainc.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn ddyfodol: Llywydd, y Parch. Jenkin Thomas, Pendleton; is-Lywydd, Mr. L. N. Williams, Aberdar; Ysgrifenydd, y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandysul; Trysorydd, Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandysul.

Am haner awr wedi un, cyfarfu Pwyllgor yr Ysgol Sul, a gwnaed amryw awgrymiadau gan wahanol siaradwyr, er gwella y trefniadau, &c., gyferbyn â'r arholiad blynyddol.

Am haner awr wedi pump, cyfarfu gweinidogion sir Aberteifi er ymdrin â chynllun y cyfnewidiadau am yr haf hwn.

Yr ydym yn ddiolchgar am y cyfarfodydd yma; yr oedd pob peth yn cydweithio er eu gwneyd yn llwyddianus yn mhob ystyr.

Cynelir y cyfarfodydd blynyddol nesaf yn Aberdar, yn Mehefin, 1900; a'r cyfarfodydd chwarterol yn yr hydref yn Ciliau, ar achlysur agor y capel newydd, pryd y pregethir y bregeth gan hen aelod o'r gynulleidfa, yn awr yn un o weinidogion blaenaf a mwyaf llwyddianus Lloegr—y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., o Bradford.

YN EIN CYRDDAU BLYNYDDOL.

FEL y dylai pob Undodwr ffyddlon, bûm yn ein cyrddau blynyddol diweddaf yn Mwlchyfadfa. Nid fy amcan, Mr. Gol., yw rhoi eu hanes, gan y gwneir hyny, yn ddiamheu, gan arall; ond, yn hytrach, gwneyd ychydig sylwadau ar yr hyn a welais ac a glywais yn ystod y dydd. Nid fy amcan, ychwaith, yw chwilio beiau; mae ereill i'w cael at hyny; a diau eu bod yn bresenol yn y Bwlch, fel yn mhob cynulliad arall o gyffelyb natur. Hefyd, nid yw y gwaith yn cydweddu â'm natur; gwell genyf, hyd y gallaf, nodi allan ragoriaethau na diffygion. Mae y beirniadydd yn angenrheidiol; ac yn ei le ac o fewn cylch priodol mae ei waith yn llesol, oherwydd trwy nodi allan ddiffygion y mae cynydd yn d'od yn bosibl. Tra yn cydnabod fod gwaith y beirniadydd yn llesol ac angenrheidiol, rhaid cyfaddef er hyny mai anaml iawn y ceir gafael yn y gwir feirniadydd—*ideal critic*. Ond nid chwareu rhan y beirniadydd yw fy amcan ar hyn o bryd, a gadawaf hyn o waith i rywun arall.

Perthyn i'r achos yn y Bwlch hanes maith bellach a dyddorol; a diamheu yr hoffai llu o'ch darllenwyr, Mr. Gol., gael ychydig ohono. Yn mhlith y cyfryw yr wyf fi fy hunan. Teimlaf ein bod oll yn gwybod llawer rhy fach am ddechreuad a chynydd y mudiad a'r gwahanol achosion Undodaidd yn Nghymru. Nid oes neb yn awr yn gwybod manylion yr hanes hwn yn fwy llwyr na chyn-Olygydd yr YMOFYNYDD, ac nid oes amheuaeth na chelai ymdrech ar ei ran i roi yr hanes i ni mewn llyfryn dderbyniad a chefnogaeth galonog. Gwnelai les i ni oll gael gwybod ychydig yn rhagor am yr anhawsderau a'r rhwystrau orfu i'r tadau i ymladd yn eu herbyn er enill y graddau o lwyddiant sydd wedi canlyn ein hachosion. Gwir nad yw y llwyddiant yn fawr; ond pan ystyriom fod yr anhawsderau a'r rhwystrau sydd wedi cyfarfod y gwahanol achosion hyn o'r dechreu wedi bod yn ddigon cryf a nerthol i ddiffodd a lladd unrhyw achosion ond y cyfryw oeddynt yn cael eu dal i fyny a'u hamddiffyn gan ddynion mwy dewr na'r cyffredin, mae y llwyddiant yn un i ryfeddu ato. Mae hefyd yn un ddylai greu teimlad gwir ddiolchgar, yn ogystal a theimlad dwys o gyfrifoldeb, yn mynwes pob un ohonom. A ydyw ein hachosion mor flodeuog ag y buont? sydd ofyniad a awgrymir i ni pan yn meddwl am gyflwr yr achosion Undodaidd yn y gorphenol a'r presenol. Mae yr amgylchiadau wedi cyfnewid, i raddau helaeth, fel nad yw yn hollol deg i gymharu y presenol â'r gorphenol. Ond eto, gyda'r un mesur o wroldeb a ffyddlondeb, mae yn bosibl i ni i gyrhaedd, nid yn unig yr un mesur o lwyddiant a'r tadau, ond llwyddiant llawer mwy. Fel y sylwodd Cynfelyn yn un o gyfarfodydd y Bwlch, eisieu mwy o ddifrifoldeb sydd arnom ni oll; ac ond i ni feddu hwn, mae llwyddiant yn sicr o ganlyn.

Un swyn i mi yn y Bwlch yw y ffaith mai yma y bu Gwilym Marles yn llafurio yn ystod ei oes fèr—llawer rhy fèr. Ni welais Gwilym ond unwaith erioed, ac ni chefais y fraint o'i glywed yn pregethu gymaint ag unwaith; ond yr wyf wedi darllen llawer o'i weithiau, ac wedi clywed llawer am dano; a thrwy help y ddau gyfrwng yma, credaf fy mod wedi deall rhyw gymaint o'i ysbryd a rhediad ei addysgiadau. Ni theimlaf un cywilydd i gydnabod fy mod, i raddau, yn arwr-addolwr (yr hyn sydd iawn tufewn i derfynau cymedroldeb). Ac ni theimlaf un cywilydd (ond balchder, yn hytrach), i gydnabod mai un o'm prif arwyr i yw Theodore Parker. Ei eiddo ef oedd y gweithiau llenyddol Undodaidd cyntaf a ddarllenais; ac enillodd ei ysbryd rhyddfrydig, ei weithgarwch, ei wroldeb, a'i gymeriad uchel, fy serch ar unwaith; ac yr wyf wedi parhau i ddarllen ei weithiau gyda'r un blas a dyddordeb oddiar hyny hyd yn awr. Yr oedd ysbryd Parker, fel y credaf, wedi ei gyfranu i Gwilym, i fesur helaeth tuhwnt i'r cyffredin; ac fel Parker, rhoddodd ei hun yn gorff, calon, ac enaid, i hyrwyddo cynydd mewn crefydd, duwinyddiaeth, a gwleidyddiaeth. I ba raddau, tybed, y mae ysbryd ac addysgiadau Gwilym wedi effeithio ar gymydogaethau cylch ei

weinidogaeth? Pan yn ymweled â chymydogaethau y Bwlch a'r Llwyn, teimlaf fy mod mewn cymydogaeth sydd wedi ei hanrhydeddu gan bresenoldeb Gwilym, ac awyrgylch ddylai fod yn llawn o'i ysbryd. Tra yn son am Gwilym, nis gallaf beidio cyffwrdd âg un pwnc arall. Mae bywgraffiadau o bersonau llawer llai teilwng na Gwilym wedi cael eu hysgrifenu cyn hyn. Ai yn ofer y dysgwyliwn ni am fywgraffiad Gwilym?

Cyrhaeddais y Bwlch boreu ddydd Iau. Ni chefais y cyfle i fod yn bresenol nos Fercher. Dywedwyd wrthyf fod dwy bregeth wedi eu traddodi yn y Bwlch gan ddau frawd ieuanc, a dwy yn Pisgah, capel yr Annibynwyr, gan ddau ereill. Pregethent yn Pisgah, fel y deallais, ar gais y gynulleidfa a'r gweinidog. Mae hyn yn brofiad hollol newydd, a sieryd yn uchel am ysbryd rhyddfrydig a brawdol y cyfeillion yn y lle. Pan gyrhaeddais yno, yr oedd Pwyllgor y Gymdeithas wedi dechreu ar ei waith—yr Ysgrifenydd wedi darllen ei adroddiad, a'r Trysorydd yn darllen yr eiddo yntau. Yr oedd y ddau yn foddhaol, mor bell ag oeddynt yn cyrhaedd; ond yr un gân glywid gan y Trysorydd yma ag a glywir gan drysoryddion y rhan fwyaf o gymdeithasau cyffelyb, sef, fod yr arian lawer yn rhy fach i ateb y gwaith sydd eisieu ei wneyd. Cam yn yr iawn gyfeiriad yn ddiau yw y penderfyniad i argraffu yr adroddiad yn llyfryn, a'i ddosbarthu yn mhlith y cynulleidfaoedd. Gobeithio mai effaith hyn fydd dyblu y cyfraniadau yn mhob man. Bu amryw faterion dan ystyriaeth yn y Pwyllgor, ond nid oes eisieu cyfeirio atynt yn y fan hon. Un peth neillduol ddaeth i'm sylw yn ystod y Pwyllgor oedd y gwelliant amlwg sydd wedi cymeryd lle yn y drefn o ddwyn gwaith y Pwyllgor yn mlaen. Bûm yn yr un cyntaf—yn Mhontypridd, os iawn y cofiaf. Nodwedd benaf y cyfarfod hwnw oedd anhrefn. Oddiar hyny, mae gwelliant mawr wedi cymeryd lle. Arferwn edmygu y Methodistiaid am eu trefn; ond, yn wir, rhaid iddynt edrych at eu cymeriad yn hyn.

Ar ol gorphen gwaith y Pwyllgor, aed allan i wrando anerchiad y Llywydd. Pan glywais beth oedd ei destyn, rhoddais fy hun mewn ystum gwrando, gan ddysgwyl cael gwledd gyfoethog. Yr oedd y testyn a'r siaradwr yn taro eu gilydd—yr hyn sydd yr un peth a dyweyd mai Iesu Grist yw un o hoff destynau Mr. Jones. Gwnaeth gyflawn chwareu teg â'r pwnc oedd ganddo mewn llaw. Ac ar ol iddo orphen, dywedwn wrthyf fy hun yr hoffwn wybod pwy allai siarad yn well ar y pwnc; a byddwn, yn ddiamheu, wedi ateb y gofyniad trwy ddyweyd nas gallai neb, oni bai i'r Parch. R. J. Jones, M.A., godi i eilio y bleidlais o ddiolchgarwch iddo. Yr oedd yr hyn a ddywedodd Mr. Jones yn un o'r pethau goreu ar y pwnc ag wyf wedi glywed eto; a theimlwn wrth wrando arno fy mod yn cael fy nghodi yn mhell uwchlaw fy amgylchedd arferol, a fy mod yn anadlu awyrgylch lawer mwy pur ac iachus; a theimlwn, hefyd, os y clywyd neb erioed yn siarad dan ysbrydoliaeth, fod y gynulleidfa yn y Bwlch wedi ei glywed y boreu hwn.

Yn ystod yr haner dydd, cafwyd cyfarfod a ellir ei alw yn ngwir ystyr y gair yn "Gwrdd Clebran." Ei amcan oedd cael ymdrafodaeth gyffredinol ar y dull o gario yn mlaen yr arholiadau mewn gwybodaeth grefyddol sydd yn ddiweddar wedi d'od i fodolaeth. Caed amryw awgrymiadau gwerthfawr; ac effaith yr oll fydd, gobeithio, gwneyd yr arholiadau yn fwy perffaith ac effeithiol. Yn ystod y cyfarfod, cefais air Cymraeg am y gair Saesoneg *assimilate*. Ni ddywedaf beth oedd; gadawaf i'r cywrain i'w chwilio allan.

Yr oedd pregeth y Gymanfa yn y prydnawn yn ardderchog, er ei bod, yn ddiamheu, yn peri i rai osod eu bysedd yn eu clustiau tra yr oedd yn cael ei thraddodi. Hoffwn yn fawr gael cyfle i eistedd uwch ei phen, a'i darllen yn fwy trwyadl a manwl. Hyn, gobeithio, fydd ein rhan. Caed, hefyd, bregeth werthfawr gan Mr. Jones, Aberdar. Da oedd gan bawb weled Mr. Jones, a gweled ei fod wedi dyfod trwy yr ystorm a'i goddiweddodd yn ddiweddar yn fuddugoliaethus. Yr oedd y ddwy bregeth yn yr hwyr yn ddiweddglo hapus iawn ar gyfres o gyfarfodydd gwir lwyddianus. Gobeithiwn mai dylanwadau da fydd yn canlyn.

CRWYDRYN.

YR YMGNAWDOLIAD.

"Y dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo."

GYHUDDIAD cyffredin a ddygir yn erbyn yr Undodiaid yw, eu bod yn gwadu fel hyn a gwadu fel arall; yn gwadu Duwdod Crist; yn gwadu yr athrawiaeth o ddwy natur yn Nghrist. Nid yw y cyhuddiad yn deg. Ystyr gwadu yw dywedyd nad yw am y peth sydd. "Yr ynfyd a ddywed yn ei galon nad oes un Duw." Y mae yn gwadu fod Duw, pan y gwyddom ni ei fod. Nid yw Crist yn Dduw, ac felly nis gall Undodwr wadu ei Dduwdod. Pe dywedai Undodwr nad yw "Duw yn Nghrist yn cymodi y byd âg Ef Ei Hun," byddai hyn-yna yn wadu; ond mor bell ag y gwn i, y mae pob Undodwr yn credu athrawiaeth Paul, fod "Duw yn Nghrist," &c. Anaml y gwna ein cyhuddwyr un cais i ddeall ein safle. Yr ydym ni yn derbyn addysg Paul. Y gwahaniaeth cydrhyngom ni a'n cyhuddwyr yw, eu bod hwy yn cyfyngu athrawiaeth Paul, a ninau yn ei chyffredinoli. Paul sydd yn dywedyd, "Oblegid ynddo Ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn gorfforol;" a Phaul hefyd sydd yn gweddïo ar fod i'r Ephesiaid gael eu cyflawni â holl gyflawnder Duw. Nid yw yr Ephesiaid yn dduwiau am fod Duw ynddynt, na Christ yn dduw am fod Duw ynddo. Un Duw sydd, ac nid oes marw Iddo.

R. J. J.

Y TYMHORAU.

MR. GOL.,—Byddai yn dda genym pe baech chwi neu rai o'ch darllenwyr lluosog yn alluog i'm hysbysu pwy yw awdwr y llinellau neu y penillion canlynol.

YMHOLYDD.

DAW'R haf yn dra rhyfedd a'i siwgr gwresogaidd,
Gwair, ŷd yn gyfrodedd yn gydwedd a gawn,
A blethodd blaen lwythau a menyn mewn manau,
Braf ffrwythau gwn inau yn gu uniawn.

Daw'r hydref du rudrus a'i ruthr dra athrist
I bondro rhai'n bendrist, 'rwyf fi'n dyst ei fod;
Pob grawn yn pengrino, a'n daear yn duo,
A'i glaswellt yn gwywo'n un gawod.

Cyfoeth y gaua' tra oeraidd yw'r eira,
Yr awyr a rewa ein bara a'n bwyd;
A'r gwyntoedd cryf, creulon, a chwythant oer chwythion,
Bydd dynion mwyn union mewn anwyd.

Daw'r gwanwyn dan gwyno yn foreu 'lafurio,
Bydd gweithwyr yn gweithio gan deithio bob dydd;
Draw'n ddiau droi'r ddaear yn llyfn ei llafar,
Duw hawddgar gwnai'n gynar iawn gynydd.

Y TYWYSOG BISMARCK.

"PE na bawn i 'n Gristion," ebai Bismarck yn Ferrieres yn 1871, "ni wnaethwn wasanaethu'r Wladwriaeth am un awr arall. Paham yr awn i flino ac i ladd fy hunan â'r pryder, a'r llafur, a'r ffwdan parhaus yma, oni bai fy mod yn teimlo yn enw Duw fod yn rhaid i mi wneuthur fy nyledswydd? Ni wn i o ba le y daw fy nheimlad o ddyledswydd, os nad oddiwrth Dduw. Nid oes gan urddau a theitlau yr un swyn i mi. Y gred bendant o fywyd ar ol marw sydd yn fy ngwneuthur i yn freninwr, yr hwn wyf, yn naturiol, yn werinwr. Dyger oddiarnaf y ffydd hon, ac fe ddygir oddiarnaf wlad fy nhadau. Oni bai fy mod yn grediniwr Cristionogol trwyadl, ni welech fi byth yn Ganghellydd. Mor foddlawn y byddwn i glirio allan o'r cwbl. Y mae fy ngwir hoffder i mewn bywyd gwledig: yn y coed ac yn yr awyr agored. Oni bai fy mherthynas â Duw, gwnawn bacio i fyny 'fory, ac mi ffoiswn ffwrdd i godi ceirch yn Varzin.

C. L.

CYFEILLACHU AG YSBRYDION.

I.

EFALLAI fod penawd fy ysgrif yn ymddangos i rai yn ymylu ar y rhyfygus a'r cellweirus, ac i ereill, fe ddichon, dipyn yn bwysig a difrifol. Wel, a dyweyd y lleiaf, y mae son am "Gyfeillachu âg Ysbrydion" mewn unrhyw fodd yn y byd yn creu rhyw syniad o amheuaeth nes peri cellwair—ac o'r tu arall y mae yn creu rhyw ymdeimlad annymunol yn llawn o aeth a braw, fel pe teflid dwfr oer drosom o'n pen i'n traed. Ond boed fel y bo, dyna'r dull a'r modd wyf fi wedi ei ddewis i benu yr hyn wyf yn fwriadu ei draethu ar dudalenau yr YMOFYNYDD.

Oddiar mis Medi, 1873, yr wyf wedi bod yn eistedd yn dra chyson mewn cylch Ysbrydegol, a'r cylch hwnw yn cael ei wneyd i fyny o bersonau, o ran cymeriad, uwchlaw un amheuaeth, yn dda; a'u hamcan, wrth eistedd, yn drwyadl onest a didwyll. A'n hunig fwriad wrth eistedd oedd dal cymundeb, neu gyfeillachu âg ysbrydion tad neu fam, plant, perthynasau, a chyfeillion ymadawedig. Gwelais yn mynychu yr eisteddiadau hyn rai oeddynt yn ymylu ar fod yn anghredwyr llwyr parth bodolaeth ysbryd neu angel, na dim o'r fath fodau mewn nefoedd nac uffern. A chlywais un yn dywedyd wedi dyfod allan o'r cylch:—"Lle yr oeddwn ni gynt yn ddall, yr wyf yn awr yn gweled." Beth oedd wedi agoryd ei lygaid, nis gwn i; ond gwn iddo ar ol hyny fyw a marw yn gredwr trwyadl mewn sefyllfa ddyfodol.

Ond nid wyf fi wrth ysgrifenu y llinellau hyn am i neb feddwl am foment fy mod yn ymgymeryd â phenderfynu y cwestiwn—"A ydyw yn bosibl i ddynion yn y cnawd gyfeillachu âg ysbrydion neu fodau dignawd?" Nid hyny fydd fy amcan yn ysgrifenu, ond dyweyd fy mhrofiad am yr hyn a welais, a glywais, ac a deimlais, pan yn eistedd yn y cylchoedd Ysbrydegol, ac allan o'r cylchoedd hefyd; ac yna caiff y darllenydd dynu y casgliad a fyno, a barnu drosto ei hun. Ac os gallaf finau ymgadw o fewn y terfynau hyn, byddaf wedi cyrhaedd fy amcan o fod yn deg a gonest yn traethu fy llith.

Ni fûm erioed yn ofergoelus, ac nid oedd fy rhieni ychwaith yn ofergoelus; ond yr oeddynt yn dra sylwgar ac ystyrgar o bob peth hynodol a ddygwyddai; a chlywais hwynt yn siarad â'u gilydd lawer gwaith felly—am ymddangosiad ysbryd hwn-a-hwn, ac am ledrith angladd a ddaethai i Gapel Cefnarthen ar adeg ysgol ganu a gynelid yno ar ryw nos Sadwrn, pryd y ffödd pawb ohonynt allan mewn braw a dychryn. Clywais ganddynt amryw o chwedlau o'r fath hyn, ac efallai y bydd i mi wneyd defnydd o rai ohonynt cyn gorphen fy ysgrif. Er fy mod fel hyn wedi

clywed llawer iawn o bob math o ystraeon am ymddangosiadau ysbrydion, bwganod, tylwyth teg, canwyllau cyrff, a lledrith angladdau, ac oernadau annaearol Gwrach y Rhibyn—neu fel y gelwid ef genym ni, Cyhoerath—oernadau yr hwn oedd yn ddigon i rewi y ceryg yn y clawdd y ffordd y cerddai, "meddai nhw," cofiwch. Ni chlywais i ddim o'r fath beth hyd yn hyn, ac nid wyf am ei glywed ychwaith; er hyn oll, nid oedd yr holl chwedlau hyn wedi cael yr un effaith na dylanwad neillduol arnaf i fod yn gredwr mawr ynddynt, nac ychwaith yn anghredwr. Eto, nis gallwn amheu geirwiredd fy rhieni yn adrodd am yr hyn a welasant ac a glywsant hwy yn eu hoes, am nad oedd na budd nac elw iddynt wrth adrodd am y pethau rhyfedd hyny wrthym ni, blant, ar yr aelwyd hwyrnos gauaf. Nis gallaf gredu am eiliad eu bod yn dyweyd anwiredd diliw, dilun, gydag amcan i greu ofergoeledd ynom ni, blant. Mae y syniad yn rhy anesgusodol o wrthun, a dyweyd y lleiaf am dano. Ond awn rhagom. Yr oedd fy mam yn fydwraig brofedig; a gŵyr pawb fod, fel rheol, alwedigaeth bwysig arall yn perthyn i'r bydwragedd, yn neillduol yn y wlad yn y dyddiau gynt, sef, "troi cyrff heibio," ac "amwisgo," nid yn gywir fel yr amwisgid yn y dyddiau presenol. Heddyw, y mae yr amwisg yn barod, ond gynt, yr oedd yn rhaid ei gwneyd: ac felly y mae yn debyg fod fy mam yn dra deheuig i drin y meirw, a'u hamwisgo, &c. Ac, wrth gwrs, yr oedd yn ei meddiant lenllieiniau pwrpasol at ei galwedigaeth, ac ni feiddiai neb yn y tŷ eu trin a'u trafod ond ei hunan, a chedwid hwynt yn ofalus mewn *drawer* o'r neilldu, fel na chymysgid yr un dilledyn arall â hwy. Ond llawer pen boreu y clywais hi yn dyweyd, "Y mae rhywun eto ar farw; mi glywais *drawer* y llieiniau yna yn cael ei agor;" a chan wired a'i bod hi wedi dyweyd hyny, byddai yno genad yn ei hymofyn i "droi corff" rhywun neu gilydd cyn nos y dydd hwnw. Hefyd, clywais hi yn dyweyd lawer noson wrth fyned i'r gwely, "Odid iawn na chaf fi fy ngalw cyn y boreu; y mae rhywun yn glaf ar drafael." Gwir; buasai yn sicr o gael ei galw fel ag oedd hi wedi dyweyd. Gallaf ddyweyd yn eofn fy mod yn dyst o ddegau o ddygwyddiadau o'r fath hyn yn mywyd fy mam. Ac yn benaf oll, pan oedd wedi ei chyfyngu i'w hystafell wely, ac o fewn ychydig ddyddiau i'w marwolaeth, dywedodd wrthyf fi a'm priod ddarfod iddi weled "ei hysgrin neithiwr" yn cael ei ddwyn i'r ystafell, ac adroddodd yn gywir sut y dygid ef i fewn. Yn mhen ychydig ddyddiau hi a fu farw. Yn gywir fel ag y dywedodd wrthym y bu yn nglŷn â dygiad yr ysgrin i'r ystafell. Yr wyf yn dyst o'r hyn a ddywedodd hi, ac yn dyst o'r hyn a gymerodd le y noson y dodwyd hi yn ei harch.

Deuaf bellach at beth arall, yn dal cysylltiad â mi fy hun. Yn 1866, prynajs *sewing machine*, yr hyn a brawf ar unwaith i bawb beth oeddwn wrth fy ngalwedigaeth, sef teiliwr; ac yr oedd y fath offeryn y pryd hwnw yn wrthddrych syndod gan bawb, a mawr y tynu a fu i'w weled yn gwnio; ac yn wir, wn i ddim llai nad oedd yno ryw fodau yn sylwi arno lawer pryd heblaw bodau

dynol, gan faint y miri, er mawr ddychryn i mi a'r teulu aml i dro. Nid oedd neb yn y tŷ y pryd hyn yn medru ei weithio ond fy hun. Yr hyn a barodd ddychryn mynych i mi a'r teulu, oedd clywed y *machine* yn cael ei weithio, pan nad oedd un dyn na dynes o fewn yr ystafell weithio ar y pryd. Aethum lawer tro i'r ystafell er cael gweled os oedd yno rywun neu rywbeth yn ei drafod; ond ni welais yno neb. Hefyd, yn dilyn y swn yma, clywais rywbeth yn trafod y siswrn tori ar y bwrdd lle yr arferwn dori defnyddiau. Nid oedd neb i drafod hwnw ond fy hun. Clywais yr haiarn presio yn disgyn ar y *stand* mor eglur ag y clywn ef pan y defnyddiwn ef fy hun. Clywais hyn, do, lawer-oedd o weithiau, hyd nes o'r diwedd yr oeddwn yn berffaith gynefin â'r cyfryw seiniau. Wedi hir gynefino felly â'r pethau rhyfedd hyn, daeth i fy mhen i dalu sylw manwl ar ba adeg o'r dydd neu'r nos y dygwyddent. Cefais allan yn fuan iawn, fod yn wastad yn dilyn yr holl swn hyn weithio ar gyfer angladd rhywun neu gilydd. Hefyd, sylwais yn mhellach, os buasai i mi glywed rhyw drafodaeth o'r fath rhwng wyth a naw o'r gloch y nos, buaswn yn sicr o gael *mourning* o fewn yr wythnos ddilynol; ac os dygwyddai y pethau hyn rhwng naw a deg o'r gloch y nos, buaswn yn sicr o gael dillad angladd o fewn y pythefnos i'r diwrnod.

Eglur ddigon i mi oedd fod yr holl bethau hyn yn ddim amgen na rhagarwyddion diamwys fod angladd yn agos, ac y byddai i minau gael gwneuthur dillad i rywun neu rywrai a berthynai i'r ymadawedig. Mae hynyma yn wirionedd bob gair, a phe bai yr holl fyd yn fy ngalw y penbwl mwyaf ofergoelus a fu erioed mewn bôd, nis gallaf oddiwrth hyny; dyweyd am yr hyn a glywais, ac am fy mhrofiad yn nglŷn â'r pethau hyn wyf fi.

Gallaf ddyweyd yn eofn, nad unwaith na dengwaith, ïe, na dengwaith-ar-hugain hefyd, y clywais y rhagarwyddion, ac nid y fi yn unig, ond aelodau y teulu yn ogystal. Clywais arwyddion neillduol a gymerasant le lawn tri mis cyn eu sylweddolwyd; cymerasant le pan oedd y person yn iach ei wala, ond a laddwyd trwy ddamwain dan y ddaear, a chefais inau wneyd dillad i'w feibion erbyn ei angladd; a'r swn hynod a glywais, dri mis cyn hyny, a gymerodd le pan oeddwn yn gwneyd dillad y plant. Beth ellir gyfrif am hyn? Beth oedd yn cynyrchu y swn, fel ag i mi allu gwahaniaethu rhwng y naill a'r llall? Pa synwyr sydd yn y syniad fod ysbrydion yn trafod *machine* gwnio, i roi arwydd fod hwn-a-hwn ar farw, ac mai myfi fuasai yn gwneyd dillad *mourning* ar gyfer ei angladd? Os fy ysbryd i oedd yno yn trafod y siswrn mawr ar y bwrdd tori, yr oedd yno heb yn wybod i fi. Pa fudd neu fendith oedd rhoddi hysbysrwydd i mi am angladd neb, gan mai fi fuasai yn gwneyd y dillad i'r teulu? Holer a fyner, nid oes genyf i'w ddyweyd, ond yn unig, dyna fel y bu lawer tro. Cewch ragor y tro nesaf.

GWERNYFED.

IESU.

EDRYCHAF ar Iesu fel cynyrch uchaf yr hil ddynol. Anrhydeddaf fawredd deall; plygaf fy ngwàr i Socrates, a Newton, a Laplace, a Hegel, a Kaut, a meddyliau mawrion ein dydd ein hunain. Ond beth ydynt oll o'u cymharu â'r mawredd hwn o gyfiawnder, mawredd dyngarwch, mawredd crefydd? Nid ydynt ond megys dim! Edrychaf ar Iesu, nid yn unig fel proffwyd hanesyddol, ond megys rhagddywediad proffwydol. Fe ddengys beth sydd ynoch chwi ac ynof finau, a daw yn unig fel y daw blodeuyn cynaraf y gwanwyn, i ddywedyd wrthym fod yr haf ger llaw. O nifer y mawrion sydd wedi bod o bryd i bryd yn wrthddrychau addoliad daearol neu nefol i ddynion, daw Iesu allan fel y daw y blodau teg hyn yn nhymhor gauaf, yn arwyddion o haf eto i dd'od—haf o barthau trofanaidd, lle mae'r holl brydferthwch hyn yn ei ardderchogrwydd drwy'r flwyddyn. Yr wyf yn diolch i Dduw am yr hanes, yr hwn yw Iesu! Ac yn diolch Iddo eto yn fwy am y broffwydoliaeth, yr hwn yw! T. P.

ANFARWOLDEB YR ENAID.

PE cawn i'm rhan holl gyfoeth byd, a phob rhyw wynfyd goreu,
Dywedai fy enaid ar bob tro, Mae rhywbeth eto'n eisieu.

Pa beth a fyni, f' enaid bach? Pa'm 'rwyt yn grwgnach beunydd?
Paham na weli ddim yn dda, na chyfoeth na llawenydd?

'Rwyf fi o achau uwch na'r byd, gan hyny, ynfyd ceisio
Fy llenwi'n glir, a'm lloni'n glau, â'r holl deganau ynddo.

O'r Nef y daethum, oddiwrth Dduw, a'm cartref yw Paradwys;
'Rwy'n tynu byth tua'r nefol borth, am ymborth, cymhorth cymhwys.

(Allan o "Collectanea," 1824.)

GWYR mam y mudan iaith y mudan.

OPINIYNAU.

NID oes genyf fwy o hawl i wrthwynebu dyn am goledd opiniwn gwahanol i mi nag sydd genyf i wahaniaethu oddiwrth ddyn am ei fod yn gwisgo *wig*, a minau yn gwisgo fy ngwallt fy hun; ond os dygwydd iddo gymeryd ei *wig* i ffwrdd, a dechreu siglo'r powdwr yn fy llygaid, gallaf wedi'n ei hystyried yn ddyledswydd arnaf i gael gwared ohono gynted y medraf. . . . Ni wnaf gwympo maes â chwi yn nghylch unrhyw opiniwn; ond edrychwch fod eich calon yn iawn tuag at Dduw, eich bod yn adnabod ac yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, eich bod yn caru eich cymydog, yn rhodio fel y rhodiodd eich Meistr; nid wyf yn gofyn rhagor. Yr wyf wedi laru ar opiniynau, yr wyf yn flin clywed am danynt; y mae fy enaid yn ffieiddio y bwyd ansylweddol hwn. Rhoddwch i mi grefydd gref, sylweddol; rhoddwch i mi ddyn isel, mwyn, yn caru Duw, yn caru dyn; un llawn trugaredd a ffydd, heb bleidgarwch, heb ragrith; un yn gosod ei hunan allan at wasanaeth ffydd, amynedd, gobaith, llafur cariad. Boed fy enaid gyda'r cyfryw Gristionogion, lle bynag y maent, ac nad pa opiniynau y byddont yn broffesu.—*John Wesley.*

TRISTWCH.

GAWN fod dau fath o dristwch, fod y naill yn ymollwng i anobaith, a'r llall yn edrych i gyfeiriad gobaith: fod y naill megys llong heb gwmpawd, ac heb wybod o ba le y daeth, nac i ba le mae'n myned; a'r llall hefyd megys llong, yn cael ei gyru a'i thaflu gan y gwynt a'r tònau, ond eto yn symud yn sefydlog ac yn ddyogel yn nghyfeiriad y porthladd: y naill yn hollol at drugaredd y tònau, a'r llall, er yn mynych suddo ynddynt, eto yn graddol ac yn sicr nesu at ben y daith. O, nad allem bawb, er wylo ac ocheneidio yn feichus ein heneidiau, ddywedyd gyda Job, "Pe lladdai Efe fi, eto mi a obeithiaf ynddo Ef!" Y gyfryw ffydd, er iddi edrych drwy ddagrau, a wêl weledigaeth o oleuni, yr hwn, er i dristwch yn fynych ei dywyllu, nis dichon fyth ei ddinystrio.

C. L.

Os bydd y gath a'r llygoden yn byw yn gytun, bydd y bwyd mewn perygl.

MOES, MOES.

Yr oedd ganddo fil o bethau—
Mil ag un oedd arno eisiau ;
Ac o eisiau'r unpeth hwnw,
'R oedd ei fil i gyd yn chwerw.

Elfed.

MANION AC HANESION.

Llwyddiaat Arholiadol. — Yn mhlith yr ymgeiswyr llwyddianus yn yr ail arholiad am y gradd o B.A. yn Mhrifysgol Cymru, llawenydd genym weled enwau Miss Gwendoline Jones a Mr. W. Samuel Jones. Mae y blaenaf yn ferch i'r Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; a'r olaf yn fab i'r Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Dymunwn yrfa lwyddianus i'r ddau eto yn y dyfodol.

Dyrchafiad.—Llongyfarchwn y Prifathraw Evans yn galonog ar ei ddyrchafiad i'r fainc ynadol yn ei dref enedigol —Caerfyrddin. Mae y penodiad yn fwy nodedig fyth pan gofir fod Mr. Evans yn dal syniadau gwleidyddol hollol groes i'r Weinyddiaeth Doriaidd bresenol, ac nid yw byth yn celu ei syniadau.

"T. C. U." ac Emynau Cymru.— Mae sylw "T. C. U." yn yr Ymofynydd diweddaf ar nodwedd emynau Cymru wedi creu cryn anesmwythder. Ymddangosodd nodiad o'r sylw yn y *South Wales Daily News*, ac esgorodd hwnw ar amryw lythyron. A un ysgrifenydd mor bell a dyweyd fod mwyafrif tônau cynulleidfaol Cymru yn y cywair llon. Beth nesaf?

Dowlais.—Dyddiau Sadwrn a Sul, Mehefin 10fed a'r 11eg, cynaliwyd cyfarfod pregethu blynyddol yr eglwys hon, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. T. J. Jenkins, Gellionen, a David Rees, Pentre Ystrad. Cafwyd tywydd dymunol dros ben, pregethau hwylus a dylanwadol, a chynulliadau lluosog, yn neillduol felly y prydnawn a'r hwyr ddydd Sul, pan yr oedd y capel yn llawn. Mae yr achos yn gwisgo agwedd ddymunol iawn yma yn bresenol, ac yr ydym yn cael lle i gredu fod dyfodol dysglaer i Undodiaeth yn fuan yn y lle. Yr oedd un arwydd eglur yr amser—fod dydd o fwy o undeb a brawdoldeb yn gwawrio —yn weladwy yn nghyfarfod nos Sadwrn, pryd yr oedd gweinidogion perthynol i enwadau ereill yn bresenol. Casglwyd yn ganmoladwy yn y pedair oedfa tuag at y treuliau, a theimla pawb yr hoffent glywed y dadau frawd yn fuan eto.

PIODASAU.

Mehefin 15fed, Mr. Evan Davies, Springfield, â Miss Eleanor Evans, Bryn, y ddau o'r Cribyn. Hapusrwydd fo yn rhan iddynt.

Gorphenhaf 1af, yn nghapel Abergorlech, gan y Parch. E. G. Rees, gweinidog, a'r cofrestrydd (Mr. D. Evans), Mr. D. T. Harries, Bailyficer, Llansawel, â Miss Lizzie Jones, merch henaf Mr. D. Jones, Llewelemawr, Llansawel.

Gorphenhaf 7fed, yn Mhantydefaid, gan y Parchn. Thomas Thomas, Y.H., a T. Arthur Thomas, Cadben John Lloyd Jones, Cloth Hall, Pantydefaid,

â Miss Jeannie Evans, merch ieuengaf y diweddar Mr. James Evans a Mrs. Evans, Cyfeile, Llandysul. Hon ydoedd y briodas gyntaf o dan y gyfraith newydd.

O'i hen agwedd unigol,—hoenus aeth
Cadben Jones yn siriol ;
Enillodd, 'gafodd i'w gol
Ei dda asen ddewisol.

I'w wiw fodd, ni welodd efe—erioed
Ar hyd ei holl deithie
Mewn un man, llan na lle,
Un fel i Jane Gyfeile.

Eu hygar serch fo'n para—yn gadarn
Drwy gydol eu gyrfa ;
Doed hylon fendithion da
'N ddiomedd i'r ddau yma,
—*T. T., Glan Cerdin.*

MARWGOFION.

Mehefin 7fed, Martha, baban Rachel Davies, Cefncoed, Llanwenog, yn 5 mis oed. Claddwyd yn Nghapelygroes ar y 10fed. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan D. E., Cribyn.

Mehefin 15fed, yn 43 mlwydd oed, David Davies, Cyfyng, ger Llandysul. Cafodd yr ymadawedig iechyd anarferol o dda drwy ei holl fywyd, ac yr oedd yn dilyn ei waith fel arfer bedwar dydd cyn ei farwolaeth. Yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, cafodd ei alw adref er galar a challed i'w weddw a'i chwech plentyn. Barn pawb a'u hadwaenai ydyw, eu bod wedi colli gweithiwr diwyd a gonest, cymydog parod i gynorthwyo, tad gofalus, a phriod hawddgar.

"Mur egwan a theneu, mi wn,
Sydd rhyngwyf, fyd bythol, â thi."

Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon, fo'n nerth ac yn ymgeledd i'r weddw a'r plant. Claddwyd ef y dydd Llun canlynol yn Pantydefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

Mehefin 16eg, Mrs. Jane Thomas, Barley Mow, Llanbedr, yn 71 mlwydd oed. Bu ei chystudd yn gymharol ysgafn, oherwydd ni chafodd ei chyfyngu i'w thŷ ac i'w gwely ond am amser byr cyn ei marwolaeth, er fod yna arwyddion amlwg i bawb a'i gwelai fod y daearol dŷ yn graddol ddadfeilio. Yr oedd yn un o hen aelodau eglwys Caeronen, a bu am flynyddau yn gofalu am, ac yn glanhau y deml fechan hono pan yn byw yn yr ardal ; ond wedi iddynt fel teulu symud i Lanbedr i fyw, ymunodd âg eglwys Brondeifi, a bu yn aelod ohoni hyd ei bedd. Yr oedd yn dderbynydd cyson o'r Ymofynydd, ac yn awyddus iawn i gael gafael ynddo mor fuan ag oedd yn bosibl bob mis ; a medrai werthfawrogi yn dda yr hyn a ddarllenai, a hyny i raddau pell tuhwnt i'r cyffredin. Gadawodd dair merch a pherthynasau ereill i alaru ar ei hol. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog o berthynasau, cyfeillion, a chydnabod i hebrwng yr hyn oedd farwol ohoni i fedd wrth ochr ei phriod yn mynwent Capel Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Gorphenhaf 9fed, yn 85 mlwydd oed, David Herbert, Foelcwmfach, plwyf Llanarth. Claddwyd yn mynwent Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Allt-yplaca.

Gorphenaf 21ain, yn 71 mlwydd oed, Anne, merch ieuengaf y diweddar Mr. Rees Price, Ivy Cottage, Aberdar. Bu Miss Price naw mlynedd yn gystuddiol, a'r ddwy flynedd olaf yn gyfyngedig i'w gwely, a dygodd yr oll gydag amynedd Cristionogol. Yr oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid, a'i hen weinidog, Mr. Jones, Brynsteion, gyda chynorthwy R. J. J., weinyddodd yn yr angladd. Dymunwn nawdd Duw i'w brawd, yr hwn sydd wedi ei adael yn unig yn awr, ac i'w lluaws perthynasau. Claddwyd yn mynwent Eglwys Sant Ffagan.